# Cyfraniadau Cymraeg Aelodau'r Cynulliad

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Eich cyf . Your ref
Ein cyf . Our ref – FoI 764

31 Mawrth 2017

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 24 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

> *Dwi'n ysgrifennu atoch chi er mwyn cael gwybod faint o Gymraeg mae aelodau seneddol Cymru'n siarad. Allwch chi roi'r wybodaeth hon imi fesul aelod os sgwelwch yn dda?*

Nid ydym yn cadw cofnod o'r Gymraeg a siaradwyd yn gyhoeddus gan Aelodau'r Cynulliad yn y Senedd, yn y Cyfarfod Llawn nac mewn cyfarfodydd pwyllgor.

Mae'r Comisiwn yn darparu cyfleusterau dwyieithog llawn i gefnogi gwaith y Cynulliad, felly gall unrhyw Aelod Cynulliad weithio yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae Cofnod y Trafodion yn y Cyfarfod Llawn a chofnodion y cyfarfodydd pwyllgor yn adlewyrchu hyn ac maent ar gael ar wefan y Cynulliad.
Cofnod y Trafodion yn y Cyfarfod Llawn: http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=5&category=Record%20of%20Proceedings

Mae trafodion y pwyllgorau i'w gweld ar dudalen pob pwyllgor, sydd wedi'u rhestru yma: http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/committees/Pages/committees.aspx

Mae trawsgrifiadau'r Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau bob amser yn cyhoeddi'r testun air am air ar yr ochr chwith (dyma'r iaith a lefarwyd yn ystod y cyfarfod) a'r cyfieithiad ar yr ochr dde.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Iaith wreiddiol yw’r iaith a gofnodir ar yr ochr chwith yn y Cofnod.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir,

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF